# Leaving home education

# Addysg ar adael gartref

Petitions Committee / Pwyllgor Deisebau
March 23 Mawrth 2010

Shelter Cymru

# Why?

This is what young people want!

Limitations of existing PSE framework

Shelter Cymru’s Education Service & Advisory Group

# Pam?

Dyma mae bobl ifanc ei eisiau!


Rhwystrau o fewn y fframwaith ABCh cyfredol

Gwasanaeth Addysg a Grwp Ymgynghori Shelter Cymru

Shelter
Cymru

## What exactly?

- Recognition
- Statutory requirement
- Where does it fit?




## Beth yn union?

- Cydnabyddiaeth
- Yn ofynnol yn statudol
- Ble mae'n eistedd?

Shelter Cymru

# Outcomes

- Measuring effectiveness
- Feedback
- Sustainability





# Canlyniadau

- Mesur effeithiolrwydd
- Adborth
- Cynaladwyedd

Shelter
Cymru

# Resource implications

Not many!!




# Goblygiadau o ran adnoddau

Dim llawer!!

*Thank you for your time / Diolch am eich amser*

Shelter
Cymru

Shelter
Cymru

**Dogfen atodol ar gyfer y ddeiseb:**

"Gofynnwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys gwybodaeth ac addysg am adael gartref yn y cwricwlwm cenedlaethol."

**Cyd-destun**
Datblygwyd y ddeiseb hon gan bobl ifanc sy'n cymryd rhan ym mhrosiectau gwirfoddoli Shelter Cymru (Cil y Drws a Dysgu Cyfoedion) symudiad 'Power of the Voice' yng Nghaerdydd (The Gathering) a gyda chefnogaeth prosiect BAYS Barnardos, Llamau a Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd. Gwasanaeth Addysg Shelter Cymru sydd yn cydlynu'r ymgyrch hon.

Rydym oll yn teimlo y dylai dysgu am bwysigrwydd tai ac effaith digartrefedd fod yn rhan allweddol o addysg a datblygiad personol pob person ifanc.

Caiff digartrefedd ei gyfeirio ato'n fyr iawn yn Fframwaith ABCh Cyfnod Allweddol 4 (a gyflwynwyd yn 2008). Nid ydym yn teimlo fod hyn yn ddigon i sicrhau fod pobl ifanc yn dysgu am oblygiadau byw'n annibynnol a dyma pham y teimlwn fod angen bod yn fwy uchelgeisiol, trwy alw am gynnwys addysg ar adael gartref fel pwnc ar ben ei hun.

**Beth yw addysg a gwybodaeth ar adael gartref?**
Ni ddylid ystyried y math yma o addysg fel rhywbeth sy'n canolbwyntio ar ddigartrefedd yn unig a'r agweddau mwy negyddol o adael gartref. Caiff pob agwedd o adael gartref a pharatoi i wneud eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys y gallu i ddelio ag arian, sgiliau byw annibynnol yn eu cyfanrwydd, ble a sut i gael llety, yn ogystal â rheoli tenantiaethau. Mae ymwybyddiaeth ynglŷn â sut mae cyfryngu teuluol yn gweithio hefyd yn rhan bwysig o addysg ar adael gartref. Caiff gwell ymwybyddiaeth o gymuned ac elfen o ddinasyddiaeth da eu cynnwys gan eu bod yn ddefnyddiol wrth gynorthwyo pobl ifanc i fod yn rhan o'u cymunedau ac i gadw gafael ar eu tenantiaethau. Mae addysg ar adael gartref hefyd yn ymwneud â maeth a chynllunio prydau bwyd iachus yn ogystal â phynciau mwy cyffredinol megis codi hyder a lles meddwl.

**Dulliau ac adnoddau presennol**
Caiff y math yma o waith ataliol ei wneud ar hyn o bryd mewn ysgolion uwchradd ar draws gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Caiff prosiectau lleol - wedi eu rheoli gan mudiadau y trydydd sector neu mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol - ac adnoddau dysgu cyffredinol eu darparu a'u hyrwyddo mewn ysgolion. Cafodd y deunyddiau addysgu Agor Drysau (www.housemate.org.uk), a arianwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, eu dosbarthu i Gydlynwyr ABCh ymhob ysgol uwchradd yng Nghymru rhwng Medi 2008 – Hydref 2009. Mae asesiad o sut a ble y caiff y pecyn, y DVD a'r wefan eu defnyddio ar y gweill yn 2010.

Mae Gwasaneth Addysg Shelter Cymru Shelter Cymru hefyd yn cydlynu ac yn cynnig cymorth i bartneriaid lleol sydd am ddatblygu prosiectau lleol neu wedi eu targedu, sydd yn gysylltiedig â'r deunyddiau Agor Drysau.

Mae Shelter Cymru a'r amryw brosiectau lleol wedi datblgu arbenigedd wrth ddarparu addysg ar adael gartref ac mewn sefyllfa dda iawn i gynnig hyfforddiant i athrawon er mwyn sicrhau cynaladwyedd ac i gynnal cysondeb a safon y wybodaeth a drosglwyddir i bobl ifanc.

**Barn pobl ifanc**
Mae pobl ifanc wedi chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu'r ddeiseb hon a teimlant yn gryf iawn y byddai gwybodaeth ac addysg mwy strwythuredig ar adael gartef wedi bod o fudd iddynt. Maent hefyd wedi ystyried sut y gellid darparu addysg ar adael gartref petai'n cael ei gynnwys yn y cwricwlwm

cenedlaethol. Maent wedi rhoi eu barn ar sut a phryd y dylid darparu'r wybodaeth, gan gynnwys yr angen am ddarpariaeth leol a hefyd sicrhau y caiff y lefel gywir o wybodaeth ei drosglwyddo.

**Cysylltiadau Strategol**
Credwn fod gan gwybodaeth ac addysg ar adael gartref nifer o gysylltiadau strategol, gan gynnwys:

- Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (pwyntiau 13, 17 a 29 yn benodol)
- Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc yr Awdurdodau Lleol
- Cynllun 10 mlynedd ar Ddigartrefedd a Chefnogi Pobl

**Gwybodaeth bellach**
Byddwn yn cyflwyno'r ddeiseb mewn cynhadledd sy'n amlygu pwysigrwydd addysg a gwybodaeth ar adael gartref a sy'n dangos engreifftiau o arfer dda.

Cynhelir cynhadledd 'Gadael gartref: beth ddylai pob person ifanc wybod' yng Nghanolfan yr Urdd, Caerdydd ar Ragfyr 3ydd.